

## Rhybudd Preifatrwydd Arloesi Môn

Mae Arloesi Môn wedi ymrwmo i warchod eich preifatrwydd pan rydych yn cydweithio a ni neu yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r rhybudd preifatrwydd hwn yn esbonio sut a pham yr ydym yn defnyddio a gwarchod eich gwybodaeth bersonol chi.

### 1. Pa fath o wybodaeth dani'n ei gasglu amdanoch?

Rydym ni Arloesi Môn yn casglu'r math yma o wybodaeth amdanoch:

- Enw
- Cyfeiriad E-bost
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Manylion lechyd

### 2. Pam rydym angen eich gwybodaeth chi?

Rydym yn Arloesi Môn yn casglu eich gwybodaeth bersonol er mwyn

- marchnata
- cynnal rhestr bostio
- caniatáu cyfranogi mewn prosiectau peilot
- cadw cofnod o fynychwyr digwyddiadau e.e. cofrestrau
- gwaith ymchwil

Byddwn hefyd o bryd i'w gilydd yn yn anonimeiddio'r wybodaeth at bwrpas casglu ystadegau a gwaith ymchwil.

### 3. Hawl a Sail Gyfreithiol

Mae'r Rheoliad Diogelu Data yn nodi bod rhaid i ni gael sail gyfreithiol er mwyn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol.

Bydd Arloesi Môn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar sail yr amod hwn:

- Prosesu yn unol â chaniatâd yr unigolyn

Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi beth yn union yw'r amod gyfreithiol berthnasol yn ein rhybuddion preifatrwydd ar ein ffurflenni wrth gasglu'r wybodaeth gennych.

### 4. Rhannu Gwybodaeth

O bryd i'w gilydd bydd Arloesi Môn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol er mwyn cydweithio ar brosiectau, cynnal digwyddiadau ac ateb gofynion gweithredu'r rhaglen. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi os byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw un a phwy yn ein rhybuddion preifatrwydd ar ein ffurflenni wrth gasglu'r wybodaeth gennych. Os yw casglu'r wybodaeth yn seiliedig ar eich caniatâd chi, yna mae gennych hawl i wrthod i ni rannu eich gwybodaeth ac eraill.

### 5. Hawliau Unigolion

Gweler Rhybudd Preifatrwydd Menter Môn yma <https://www.mentermon.com/cwestiynau-ac-atebion/> am wybodaeth bellach am eich hawliau.

## 6. Diogelu eich gwybodaeth

Bydd Menter Môn bob amser yn cymryd camau priodol i warchod eich gwybodaeth bersonol sydd yn ein gofal. Mae gennym drefniadau gwaith a systemau mewn lle i reoli mynediad, trosglwyddo a dileu gwybodaeth mewn modd diogel. Mae staff yn cael eu hanwytho a hyfforddi i gadw gwybodaeth yn ddiogel a chydymffurfio gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

## 7. Pa mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Beth yw'r wybodaeth?	Sut yn ei gasglu a'i gadw?	Cyfnod Cadw?
Rhestrau postio	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Casglu eich manylion drwy ffurflenni papur neu ffurflen gofrestru ar lein.</li> <li>- Bydd y manylion yn cael eu mewnbynnu a'i cadw mewn cronfa ddata electroneg a bydd ffurflenni papur yn cael eu sganio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddwn yn cadw fersiwn electroneg/ papur / electroneg a phapur o'r ffurflenni ac eich manylion yn y rhestr bostio / cronfa ddata tan yr ydych yn gofyn i ni eich tynnu oddi arno. Fel arall byddwn yn eu cadw hyd nes 2030 yn unol â gofynion ein cronfa gyllido. Byddwn yn adolygu ein rhestrau postio yn rheolaidd a chewch ofyn i gael eich tynnu oddi ar y rhestr bostio unrhyw bryd.</li> <li>- Byddwn yn gwaredu'r copïau papur unwaith y byddwn wedi eu sganio i mewn i'n system electroneg.</li> </ul>
Caniatâd cyfranogi mewn prosiectau	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Casglu eich manylion drwy ffurflenni papur neu ffurflen gofrestru ar-lein.</li> <li>- Bydd y manylion yn cael eu mewnbynnu a'i cadw mewn cronfa ddata electroneg a bydd ffurflenni papur yn cael eu sganio.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddwn yn cadw fersiwn electroneg/ papur / electroneg a phapur o'r ffurflenni ac eich manylion mewn cronfa ddata hyd nes 2030 yn unol â gofynion ein cronfa gyllido.</li> <li>- Byddwn yn gwaredu'r copïau papur unwaith y byddwn wedi eu sganio i mewn i'n system electroneg.</li> </ul>
Cofrestrau mynychu digwyddiadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Casglu eich manylion drwy ffurflenni papur.</li> <li>- Bydd y manylion yn cael eu mewnbynnu a'i cadw</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddwn yn cadw fersiwn electroneg/ papur / electroneg a phapur o'r ffurflenni ac eich</li> </ul>

	mewn cronfa ddata electroneg a bydd ffurflenni papur yn cael eu sganio.	manylion mewn cronfa ddata hyd nes 2030 yn unol â gofynion ein cronfa gyllido. - Byddwn yn gwaredu'r copïau papur unwaith y byddwn wedi eu sganio i mewn i'n system electroneg.
Gwaith Ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Byddwn yn defnyddio manylion personol sydd eisoes yn ein cronfa ddata ac yn ei anonimeiddio at bwrpas ystadegol a gwaith ymchwil.</li> <li>- Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol drwy holiaduron ar lein a phapur, sydd yn ddiennw ac wedi ei anonimeiddio o'r cychwyn cyntaf at bwrpas ystadegol a gwaith ymchwil.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae gwybodaeth bersonol yn ein cronfeydd data yn cael ei gadw hyd nes 2030 yn unol â gofynion ein cronfa gyllido, oni bai eich bod wedi tynnu eich caniatad yn ôl.</li> <li>- Byddwn hefyd yn cadw'r holl waith ystadegol ac ymchwil wedi ei anonimeiddio am yr un cyfnod.</li> </ul>

## 8. Cysylltu â gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i wneud cwyn, cysylltwch â [yholiadau@mentermon.com](mailto:yholiadau@mentermon.com)

Gweler Rhybudd Preifatrwydd Menter Môn yma:  
<https://www.mentermon.com/cwestiynau-ac-atebion/>

Neu am gyngor annibynnol am ddiogelu data, cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth:  
<https://ico.org.uk/make-a-complaint/your-personal-information-concerns/>